**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1083
Ein cyf/Our ref JJ/00476/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
deisebau@senedd.cymru

1 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr pellach dyddiedig 9 Chwefror 2021 ynghylch Deiseb P-05-1083.

Mewn perthynas â'ch ymholiad am werth y cyllid canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael o ganlyniad i wariant ar y mater hwn gan Lywodraeth y DU, cafodd Llywodraeth Cymru swm canlyniadol o £58.873m mewn cyfalaf ac £1.177m mewn refeniw. Yn unol â'r trefniant datganoli, mae cyllid canlyniadol yn rhan o Gyllideb Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddyrannu gan y Cabinet i ymateb i'r anghenion a'r amgylchiadau penodol yng Nghymru. Fel y soniais yn fy ateb blaenorol, roedd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau anodd iawn ar y pryd ynghylch sut y byddai arian yn cael ei wario yng Nghymru yn sgil pandemig y coronafeirws.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gymorth ariannol i helpu i ariannu gwaith adfer mewn ffordd sy'n deg i lesddeiliaid a threthdalwyr. Rydym wedi ymrwymo £10.5m i adfer adeiladau yn y sector cymdeithasol eleni a £32m o gyllid i gefnogi gwaith adfer ar gyfer y sector preifat a chymdeithasol yn 2021/22.

Ein bwriad yw sefydlu cynnig cyllid i Gymru sy'n mynd ymhellach na'r hyn a gynigir yn Lloegr. Fel y gwyr trigolion mewn adeiladau uchel iawn, nid yw mynd i'r afael â materion cladin yn unig yn mynd yn ddigon pell. Bydd y gronfa y bwriadwn ei chynnig yn helpu gyda bob math o waith adfer adeiladau, gan edrych y tu hwnt i gladin i gynnwys adraniad, deunyddiau atal tân ac – yn bwysig iawn – systemau rhybuddio, gwacáu a llethu tân.

Rydym am sicrhau nid yn unig bod adeiladau preswyl uchel iawn yn cael gwared ar yr **holl** risgiau diogelwch tân ond hefyd eu bod mewn sefyllfa dda i ddiogelu bywyd ac iechyd pe bai tân yn digwydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hwn yn fater cymhleth a'r cymhlethdod hwn sy'n pennu cyflymder symud ymlaen â’r gwaith hwn; nid yw'n adlewyrchiad o unrhyw ddiffyg ymrwymiad i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.  Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y cyllid a gynigir cyn gynted ag y gallwn.

Cafwyd datblygiadau diweddar hefyd a allai fod â goblygiadau pellach o ran cyllid canlyniadol i Gymru yn y maes hwn.  Efallai eich bod yn ymwybodol bod Robert Jenrick, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyda Llywodraeth y DU, wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar 10 Chwefror i fynd i'r afael â chladin anniogel yn Lloegr a mesurau ehangach i wella diogelwch adeiladau.  Roeddwn yn siomedig bod cyhoeddiad mor arwyddocaol â hwn, ar bwnc o ddiddordeb cyffredin lle ceir elfennau o gydweithio a lle nad yw rhai materion wedi'u datganoli, wedi'i wneud heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw, nac unrhyw ymgysylltu ar lefel ystyrlon rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.  Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn mynegi fy siom ac yn gofyn am eglurhad ar fyrder ar fanylion elfennau allweddol y cyhoeddiad hwn.

Nid yw'n glir eto pa gyllid y gallai Cymru ei gael o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn.  Rwyf wedi gofyn am ragor o fanylion am hyn.  Rwy’n disgwyl y dylai Cymru gael ei chyfran deg o gyllid o ganlyniad i ymrwymiadau gwario yn Lloegr.  Bydd hyn yn ein helpu i allu cyflawni'r hyn y mae angen inni ei wneud yng Nghymru, o ran diogelwch adeiladau.  Rydym wedi dweud yn glir bod diogelwch adeiladau yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon ac unwaith y cawn eglurder ynghylch faint o arian ychwanegol y bydd Cymru'n ei gael, bydd y Gweinidogion gyda'i gilydd yn penderfynu sut i ddefnyddio’r yr arian hwnnw.

Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig am gyhoeddiad Llywodraeth y DU ac ymrwymiadau ariannu a wnaed yng Nghymru i gefnogi gwaith adfer adeiladau:
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diogelwch-adeiladau-cyhoeddiad-llywodraeth-y-du

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac aelodau’r Pwyllgor.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government